



Ffurflenni Cais Meddygol

Ffurflenni Cais am Arbenigeddau

Mae'r ffurflenni cais yn rhai safonedig sy'n seiliedig ar gymwyseddau, gan gyfuno gwybodaeth bersonol gyffredinol a "gofod gwyn" lle gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth benodol o brofiadau penodol, sgiliau a photensial. Mae un porth ar gyfer swyddi gwag a cheisiadau, sef www.orient.nhs.uk. Oddi yma gallwch wneud cais i unrhyw raglen hyfforddiant arbenigol.

Gwneir pob cais ar-lein, gyda Rhan 1 safonol ar gyfer gwybodaeth ffeithiol ac yna Rhan 2 ar gyfer cwestiynau penodol ynghylch yr arbenigedd, y bydd pob un ohonynt yn gofyn am wybodaeth wahanol wedi'i theilwra i'w gofynion eu hunain o ran y Fanyleb Person. Bydd eich gwybodaeth rhan 1 yn cael ei storio ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.

Pwyntiau allweddol am bob ffurflen gais:

- Maent yn canolbwyntio ar ddetholwyr gwybodaeth yn hytrach nag ar beth rydych chi'n meddwl yr hoffech chi ei roi
- Maent yn cymryd mwy o amser nag y tybiech i'w cwblhau
- Mae'r cwestiynau cymwyseddau yn allweddol i benderfyniadau llunio'r rhestr fer
- Mae cywirdeb a manylder yn hanfodol
- Dylid cwblhau ceisiadau ar-lein mewn mwy nag un eisteddiad; a'u gwirio cyn eu hanfon
- Ceisiwch beidio â'u cyflwyno ar y dyddiad cau, rhag ofn bod traffig y we yn araf, gan y gallai hynny arwain at anghymhwysu'r cais oherwydd eich bod wedi colli'r dyddiad cau!

Cynllunio, Paratoi a Rhagolwg:

- Darllenwch y ffurflen a'r nodiadau cyfarwyddyd cyffredinol i ymgeiswyr, yn ogystal â'r rhai ar gyfer pob arbenigedd.
- Rhowch sylw i feini prawf **hanfodol** y Fanyleb Person, a gofalu eich bod yn darparu tystiolaeth gadarn o bob un ohonynt
- Dechreuwch gasglu eich gwybodaeth yn gynnar – defnyddiwch yr hyn sydd yn eich CV
- Ewch ati i brawf-ddarllen yn ofalus a dangoswch eich cais i rywun arall bob amser cyn ei anfon
- Peidiwch â'i adael tan y funud olaf.
- Cadwch gopi caled

Ceisiadau am Swyddi'r GIG

Ar gyfer ceisiadau am swyddi eraill yn y GIG defnyddiwch y ffurflen gais sydd ar gael yn www.jobs.nhs.uk. Mae ffurflen benodol ar gyfer swyddi meddygol a deintyddol. Ceir canllawiau ar sut i lenwi'r ffurflenni ar y wefan Gyrfaoedd Iechyd: <https://www.healthcareers.nhs.uk/>

Llenwi'r "gofod gwyn"

Lle ceir adrannau agored i chi gyflwyno gwybodaeth, gwiriwch nifer y geiriau; lluniwch ddrafft yn gyntaf. Defnyddiwch y gofod yn dda; peidiwch â chynnig dwy frawddeg fer pan allech chi fod yn defnyddio 250 o eiriau i sôn am eich cryfderau.

Defnyddiwch enghreifftiau penodol i arddangos sgiliau personol e.e. gwaith tîm, cyfathrebu, moeseg ac ati ac amrywiwch eich enghreifftiau i gyfateb i'r arbenigedd. Wrth ysgrifennu enghreifftiau, defnyddiwch y model 'SEREN'/'STAR' (Sefyllfa, Tasg,

Ffurflenni Cais Meddygol

Gweithred a Chanlyniad - Situation, Tasg, Action and Result); bydd hyn yn rhoi fframwaith i chi yn ffocws ar gyfer eich tystiolaeth ac yn eich atal rhag crwydro oddi ar y pwnc. Ceisiwch ddisgrifio nid y profiad yn unig, ond yr hyn y gwnaethoch ei ddysgu ohono.

Gofynnir am ddatganiad cefnogi yn y rhan fwyaf o ffurflenni GIG, lle cewch dudalen wag i sôn am eich cryfderau mewn 1500 o eiriau.

Defnyddir y "gofod gwyn" i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr, felly:

- Rhestrwch eich tystiolaeth yn erbyn y "Gofynion Hanfodol" a nodir yn y Fanyleb Person. Yn aml mae'n helpu i restru'r meini prawf allweddol a chynnig brawddeg neu ddwy am bob un
- Defnyddiwch y cyfle i ddangos beth sy'n eich gwneud chi'n wahanol i'r ymgeiswyr eraill.
- Osgowch ail-ddefnyddio'r un straeon a phrofiadau ar gyfer pob maen prawf.
- Defnyddiwch brofiadau gwreiddiol, dilys, peidiwch â dyfeisio enghreifftiau.
- Gwnewch eich tystiolaeth yn realistig – peidiwch â cheisio profi eich bod wedi achub y byd, wedi osgoi trychineb genedlaethol, wedi diwygio'r GIG ac ati. Nid yw hanesion celwyddog yn creu argraff ar y detholwyr.
- Rhowch ansawdd adfyfyriol i'ch naratif – dangoswch sut y bu i brofiad ddatblygu eich mewnweddiad personol neu broffesiynol neu eich helpu i ddysgu rhywbeth am ymarfer, egwyddorion neu amdanoch chi eich hunan
- Peidiwch â chrwydro oddi ar y testun nac ysgrifennu llawer o naratif.
- Gorffennwch â Phwynt Gwerthu Unigryw (USP) cryno, bachog - pam dylech chi ddewis fi!

Tystiolaeth arall

Oddi mewn i unrhyw broses ymgeisio, gwiriwch yn ofalus i weld a ofynnir am unrhyw dystiolaeth ychwanegol. Er enghraifft, mae rhai swyddi ymgynghorwyr yn gofyn am CV yn ogystal â ffurflen gais wedi'i chwblhau. Peidiwch ag anfon un os na ofynnwyd am hynny.

Efallai y bydd rhai cyflogwyr yn creu ffurflen gais wedi'i theilwra er mwyn eich annog i dargedu eich tystiolaeth i rôl benodol.

Gellid gofyn hefyd am ddogfennau yn cadarnhau eich bod yn gymwys i wneud cais e.e. hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig neu dystiolaeth bod gennych y lefel gywir o gymhwysedd.

Gallech gael cyfle i ychwanegu dolen at broffil LinkedIn, felly os oes gennych dudalen LinkedIn, meddyliwch beth byddai hynny'n ei gynnig i ddarpar gyflogwr. Mae hwn yn offeryn marchnata pwerus ar gyfer eich gyrfa, felly gwnewch ddefnydd da o'r cyfle i arddangos y meysydd y mae'n anodd cael hyd i le ar eu cyfer mewn ffurflen gais safonol.